# Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Dinbych

Dydd Iau 5 Rhagfyr 2024

Coed Pella,
Conway Road
Bae Colwyn
LL29 7AZ

## RHAGLEN

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Croeso a Chyflwyniadau | SB / Pawb |
| **2** | Rheoliadau | AW |
| **3** | Enwebiadau | Pawb |
| **4** | Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd | Pawb |
| **5** | Adolygiad o drafodaethau / sesiwn grŵp y cyfarfod diwethaf | SBR |
| **6** | Datblygu Rhaglen Sefydlog a strwythur cyfarfodydd y dyfodol | Pawb |
| | | |

## YN BRESENNOL

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Goronwy Edwards | GE | Aelod Fforwm |
| Y Cynghorydd Barry Mellor | BM | Aelod Fforwm |
| Adrian Walls | AW | Swyddog CSDd |
| Ant Tomlinson | AT | Swyddog CSDd |
| Sophie Birchall Rogerson | SBR | Swyddog CBSC |
| Bethan Roberts | BR | Swyddog CBSC |
| Chris Ruane | CR | Aelod Fforwm |
| Emma McCloskey (dros Teams) | EM | Aelod Fforwm |
| Andy Murir | AM | Aelod Fforwm |
| Kevin Slattery | KS | Aelod Fforwm |
| John Buckley | JB | Aelod Fforwm |
| Heather Fitzgerald | HF | Aelod Fforwm |
| Graham Taylor | GT | Aelod Fforwm |
| Leena Farhat | LF | Aelod Fforwm |
| Tom Johnstone | TJ | Aelod Fforwm |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

**COFNODION**

| Eitem | | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| **1.0** | **Croeso, Cyflwyniadau** | |
| 1.1 | Cynhaliodd SBR sesiwn friffio iechyd a diogelwch cyn croesawu pawb i'r cyfarfod.<br><br>Aeth aelodau'r Fforwm ati i'w cyflwyno eu hunain. | |
| **2.0** | **Rheoliadau (Adrian Walls)** | |
| 2.1 | Cychwynnodd AW y cyfarfod drwy gyfeirio at ddogfen Canllawiau'r Fforymau Mynediad Lleol: 1. Dywedodd fod angen dilyn y rheoliadau hyn i sefydlu'r Fforwm.<br><br>Nododd AW fod rhaid i'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd gael eu hethol mewn pleidlais gyfrinachol fel eitem gyntaf ail gyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol, yn ôl Rheoliad 12. Dim ond aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol all ymgeisio am y swyddi hyn. Aeth yr Ysgrifennydd ati i lywyddu'r etholiad.<br>Pe bai'r Cadeirydd neu'r Dirprwy Gadeirydd yn ymddiswyddo, eitem gyntaf y cyfarfod nesaf fyddai ailbenodi i'r swydd honno. Er mwyn cynnal etholiad, rhaid i dros hanner yr Aelodau fod yn bresennol.<br><br>Eglurodd AW y gall aelodau'r Fforwm eu henwebu ei gilydd, a hyd yn oed os mai dim ond un person sy'n ymgeisio, rhaid i'r person hwnnw dderbyn dros hanner y pleidleisiau. Ni chaiff swyddogion CBSC na CSDd, y Cynghorydd BM na'r Cynghorydd GE bleidleisio. Yno i gynghori'r Fforwm yn unig maen nhw, gan eu bod yn swyddogion etholedig neu gyflogedig y ddau Awdurdod. | |
| **3.0** | **Enwebiadau** | |
| 3.1 | Enwebodd Chris Ruane ei hun ar gyfer swydd y Cadeirydd.<br><br>Enwebodd John Buckley Kevin Slattery ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd. | |
| **4.0** | **Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd** | |
| 4.1 | Cynhaliwyd pleidlais ar gyfer swydd y Cadeirydd, gyda 7 pleidlais o blaid a dim un yn erbyn. Penodwyd Chris Ruane yn Gadeirydd.<br><br>Cynhaliwyd pleidlais ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd, gyda 7 pleidlais o blaid a dim un yn erbyn. Penodwyd Kevin Slattery yn Is-gadeirydd.<br><br>Ymunodd AM â'r cyfarfod ar ôl i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gael eu penodi, a nododd nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Rhan 2** | |
| **5.0** | **Adolygiad o drafodaethau / sesiwn grŵp y cyfarfod diwethaf** | |
| 5.1 | Dywedodd SBR mai'r themâu allweddol a nodwyd yn sesiwn grŵp y cyfarfod diwethaf oedd cynnal a chadw, hygyrchedd, teithio llesol, cyllid a chyfathrebu. Nododd fod yr adborth yn eang, felly hoffai i'r Fforwm gychwyn meddwl amdanyn nhw'n fwy manwl - beth yw'r problemau? Pwy yw'r arbenigwyr all gynnig cyngor? Beth yw'r camau i'w cymryd a beth ddylid ei flaenoriaethu?<br><br>Awgrymodd SBR y dylid rhannu dogfen â thabl ynddi a gofyn i'r aelodau ei lenwi gyda manylion pellach am ddau neu dri o'r materion a flaenoriaethwyd, er mwyn creu rhaglen ar gyfer pob un o'r themâu allweddol hynny.<br><br>Gofynnodd SBR i'r Ysgrifennydd rannu ffurflen i gasglu manylion cyswllt yr aelodau a chadarnhau eu bod yn hapus i'w rhannu ag aelodau eraill y Fforwm. | **BR i rannu'r ddogfen themâu allweddol**<br><br>**BR i rannu ffurflenni manylion cyswllt** |
| | **Rhan 3** | |
| **6.0** | **Datblygu Rhaglen Sefydlog a strwythur cyfarfodydd y dyfodol** | |
| 6.1 | Gofynnodd AM sut mae Awdurdodau Lleol yn pennu eu blaenoriaethau; ydyn nhw'n cael eu rheoli gan Lywodraeth Cymru, blaenoriaethau cyffredinol y DU, neu'n dibynnu ar y cyllid sydd ar gael?<br><br>Eglurodd AW fod yr Awdurdod yn blaenoriaethu ei swyddogaethau statudol cystal ag y bo modd, gan nad oes digon o gyllid mewn gwirionedd i fodloni ei holl anghenion statudol. Mae blaenoriaethu'n elfen allweddol er mwyn sicrhau nad yw'r Awdurdod yn methu cyrraedd ei nod neu'n gorfod cael arweiniad gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Dywedodd KS fod y cyfarfod yn gyfle da i ganfod beth yn union mae 'mynediad' yn ei olygu. Ei ddealltwriaeth ef oedd ei fod yn ymwneud â mynediad at hamdden ym mha bynnag ffordd sy'n berthnasol, a gofynnodd a oedd gan unrhyw un arall ddiffiniad gwell.<br><br>Cyfeiriodd AW at Ganllawiau'r Fforymau Mynediad Lleol: 2, gan egluro mai swyddogaeth y Fforwm Mynediad Lleol yw cynnig cyngor i'r Awdurdodau perthnasol ar wella mynediad y cyhoedd i dir yn yr ardal er dibenion hamdden awyr agored a mwynhau'r ardal.<br><br>Awgrymodd LF y dylid edrych ar lwybrau o fewn ardal y Fforwm ac archwilio at ba ddiben y maen nhw'n cael eu defnyddio. Mae ganddi brofiad o fapio tir ar gyfer tirfeddianwyr a defnyddio'r data i wneud cais i'r cynllun taliad sengl. Aeth ymlaen i ddweud y byddai'r ymarfer mapio hwn yn fuddiol i weld pa Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n bodoli a pha waith gwella y dylid ei wneud i gysylltu llwybrau o fewn y rhwydwaith.<br><br>Gofynnodd AW a allai LF helpu'r Fforwm i gyflawni'r dasg hon, a chytunodd LF i wneud hynny.<br><br>Cytunodd SBR, gan ddweud y byddai'n fuddiol defnyddio map fel ffordd strategol o nodi problemau neu wrthdaro yn y dyfodol ar sail | |

| | | |
|---|---|---|
| | digwyddiadau ac isadeiledd. Gallai hefyd helpu'r Fforwm i ganfod tirfeddianwyr eraill a chydweithio â nhw i ddatrys problemau a gwella'r llwybrau allai gael eu cysylltu.<br><br>Gofynnodd TJ am eglurhad o ffiniau cylch gwaith y Fforwm.<br><br>Eglurodd AW fod Dwyrain Conwy'n cyrraedd canol Afon Conwy a bod Sir Ddinbych gyfan yn cyrraedd ei ffin â Sir y Fflint. | |
| 6.2 | Dywedodd AM fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno papur ymgynghori yn 2017 ar gynyddu defnydd beicwyr a marchogion o lwybrau troed. Mae hyn yn debyg i system yr Alban, lle gall unrhyw un, yn gerddwyr, beicwyr neu farchogion, ddefnyddio unrhyw hawl tramwy. Mae yna rai eithriadau o ran addasrwydd y llwybr a p'un a oes lle i basio arno ai peidio. Gofynnodd AM a ddaeth unrhyw beth o'r papur ymgynghori hwn.<br><br>Dywedodd AW ei fod ef a SBR yn cydweithio â Llywodraeth Cymru ar un o'r pwyntiau a amlygwyd yn yr ymgynghoriad, sef yr angen am fap mynediad canolog ar y we sy'n dangos statws pob llwybr cyhoeddus. Mae'n debyg y bydd y prosiect hwn yn cymryd 12 mis i'w lansio, ond mae'n rhywbeth y gellir ei ddangos i'r Fforwm. Awgrymodd AW fod y Cadeirydd yn ysgrifennu llythyr at y Gweinidog i gael gwell syniad o'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar yr ymgynghoriad hwn.<br><br>Cefnogodd GE y syniad o ysgrifennu llythyr at y Gweinidog, gan ddweud y gall y Fforwm Mynediad Lleol lobïo a cheisio dylanwadu ar y Llywodraeth i lunio polisi addas.<br><br>Gofynnodd BM sut y bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn dod i mewn i hyn.<br><br>Dywedodd AW y bydd rhaid iddyn nhw reoli rhwydwaith sydd â'i hanner o fewn y Parc Cenedlaethol a'r hanner arall y tu allan iddo. Yn hyn o beth, gallai gweithio gyda Chonwy, sydd â mwy o brofiad o hyn, ein helpu i gael gwell dealltwriaeth o'r goblygiadau allai godi. Aeth yn ei flaen i egluro y bydd Sir Ddinbych yn cyflogi Swyddog Mynediad Parciau Cenedlaethol gan fod y Parc Cenedlaethol yn wahanol i'r AHNE. Dim ond amser a ddengys a fydd yn defnyddio'r Fforwm Mynediad Lleol presennol ai peidio.<br><br>Eglurodd SBR mai'r Fforwm sy'n ymdrin â Dwyrain Conwy ac mai'r Parc Cenedlaethol sy'n ymdrin â'r Gorllewin, a bod gan Gonwy berthynas waith dda iawn â'r Parc. Gwahoddwyd y Rheolwr Mynediad a Lles, Peter Rhutherford, i arsylwi'r cyfarfod, ond gan nad oeddem yn siŵr a fyddai angen cynnal enwebiad am Gadeirydd ac Is-gadeirydd, fe'i gwahoddwyd i ddod i'r cyfarfod nesaf rywbryd ym mis Mawrth yn lle hynny.<br><br>Gofynnodd LF a fyddai'n bosib clywed gan Lywodraeth Cymru neu Fforymau Mynediad Lleol eraill ynglŷn â'r hyn maen nhw'n ei wneud, er mwyn i bawb fod yn deall ei gilydd.<br><br>Cytunodd AW, gan ddweud y byddai'n fuddiol iawn cael rhywun fel Peter yn bresennol yn y cyfarfod fel arsylwr yn ogystal â chynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru, ac y dylai'r aelodau geisio cysylltu â Gweinidogion hyd yn oed os na allan nhw ddod i'r cyfarfodydd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gofynnodd LF a hoffai'r Fforwm gael gyriant a rennir er mwyn cadw unrhyw adroddiadau neu ddogfennau o ddiddordeb a allai fod yn fuddiol.<br><br>Cefnogodd AW y syniad, gan egluro na allai'r gyriant fod ar systemau'r un o'r Awdurdodau am resymau GDPR, ond bod croeso i'r Fforwm greu ei yriant a rennir ei hun.<br><br>Gofynnodd TJ sut y gall y Fforwm dynnu sylw at eu hachos a beth fydd eu prif faterion.<br><br>Awgrymodd JB y dylid llunio rhestr o'r pedwar neu bum gwahanol bwnc a godwyd yn ystod sesiwn grŵp y cyfarfod diwethaf.<br><br>Gofynnodd AM a oedd gan unrhyw un o'r timau achub mynydd lleol gysylltiad â'r Fforwm, gan fod angen cael trafodaeth am gynyddu mynediad. Mae ganddyn nhw hefyd wybodaeth a dealltwriaeth helaeth am yr ardal leol.<br><br>Dywedodd AW y gall y Cadeirydd wahodd unrhyw un i ddod i annerch neu gynghori'r Fforwm. Credai bod y timau achub mynydd yn tueddu i fod yn eithaf prysur, felly er y gallen nhw fod yn awyddus i roi rhywfaint o amser i'r Fforwm, mae'n debyg na fydden nhw'n gallu cyfrannu adborth parhaus.<br><br>Dywedodd CR ei bod yn bwysig cynnwys pobl o wahanol grwpiau hyd yn oed os nad ydyn nhw'n aelodau o'r Fforwm, er mwyn dysgu ganddyn nhw a'u sicrhau nad ydym yn anwybyddu nac wedi anghofio am eu sefyllfa.<br><br>Awgrymodd LF y dylid creu rhestr o sefydliadau sydd o ddiddordeb i'r Fforwm.<br><br>Cytunodd CR, gan awgrymu sefydlu categorïau bras fel iechyd, Cyngor Tref, sefydliadau gwirfoddol a grwpiau chwaraeon, a llenwi pob categori â chysylltiadau perthnasol fel y mae LF yn ei weld yn briodol. Yna, gellir rhannu'r rhestr hon gyda'r gobaith y bydd yn helpu eraill i feddwl am fwy o gysylltiadau.<br><br>Gofynnodd KS pa broses y dylai'r Fforwm ei defnyddio i lunio rhaglen. Ai'r Cadeirydd fydd yn ei phennu neu a fydd y Fforwm yn pleidleisio ar ba faterion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf?<br><br>Anogodd SBR aelodau'r Fforwm i lenwi'r tablau y soniwyd amdanyn nhw'n gynharach yn y cyfarfod, i gael mwy o fanylion am y materion allweddol er mwyn gallu eu blaenoriaethu. Cynigiodd fod yr aelodau'n gwneud hyn rhwng rŵan a'r cyfarfod nesaf.<br><br>Dywedodd AW y gall y swyddogion hefyd helpu'r Fforwm i gydlynu'r rhaglen, gan gynnig bod y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Ysgrifennydd yn cyfarfod ymlaen llaw i edrych ar y data a gasglwyd o'r tablau a dewis y materion allweddol. Yna, bydd posib iddyn nhw drefnu a chysylltu â'r unigolion mwyaf addas i ymdrin â'r materion hynny cyn y cyfarfod nesaf.<br><br>Cynigiodd AM y syniad o ddefnyddio dull rheoli prosiect neu broses sgorio i flaenoriaethu'r materion allweddol yn ôl faint o amser y bydd yn ei gymryd i gwblhau'r gwaith, faint fydd y gost, a beth yw'r buddion. Drwy | **LF i greu gyriant a rennir**<br><br>**LF i lunio rhestr** |

| | | |
|---|---|---|
| | wneud hyn, bydd y Fforwm yn cael ei gyfeirio'n naturiol tuag at y materion y dylid eu blaenoriaethu.<br><br>Gofynnodd LF a fyddai'n fuddiol cynnal cyfarfodydd ar safleoedd.<br><br>Cytunodd AW y byddai hyn yn ffordd fuddiol o ganfod beth yw'r problemau a sut y gellir eu datrys. Mae'n edrych ymlaen at gael awgrymiadau gan y Fforwm am safleoedd i gynnal y cyfarfodydd arnyn nhw.<br><br>Mynegodd GE bwysigrwydd meddwl am y materion ar lefel strategol, gan feddwl am bolisi a pha waith y gall y ddau Awdurdod Lleol ei wneud mewn gwirionedd. Mae angen i'r Fforwm fod yn ystyriol o'r gwaith gweinyddu y tu ôl i'w holl syniadau hefyd.<br><br>Cytunodd AW, gan ddweud y byddai'n rhagweld ceisio cyfarfod unwaith y flwyddyn i ddangos enghreifftiau o brosiectau penodol a fyddai'n gwella dealltwriaeth y grŵp o faterion allweddol y mae'r Awdurdodau Lleol yn delio â nhw.<br><br>Dywedodd SBR nad yw am i'r Fforwm fod yn lle i drafod syniadau yn unig; mae am i'r syniadau hynny gael eu rhoi ar waith. Efallai fod yna botiau cyllid na all yr Awdurdodau Lleol gael gafael arnyn nhw, ond gall y Fforwm gysylltu â'r Cynghorau Tref a Chymuned i ofyn iddyn nhw wneud cais am y cyllid.<br><br>Aeth SBR yn ei blaen i ddweud y gall y Fforwm ddechrau rhannu syniadau am sut fath o strwythur yr hoffen nhw ei weld i raglenni'r cyfarfodydd yn y dyfodol. Gall y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd ac unrhyw un yr hoffen nhw eu gwahodd i'r rhag-gyfarfod drafod hyn. Mae angen meddwl hefyd lle dylai'r cyfarfodydd gael eu cynnal - mewn adeilad, ar safle neu dros Teams - pa un bynnag sydd fwyaf hwylus.<br><br>Ychwanegodd AW y dylid cynnwys cyfle ar y rhaglen i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu a bennwyd yn y cyfarfod diwethaf, er mwyn trafod unrhyw welliannau neu gynnydd a wnaed. Aeth yn ei flaen i ddweud bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal cynhadledd flynyddol a fydd yn galluogi'r Fforwm i weld beth maen nhw'n ei wneud, a gallai hyn helpu'r Cadeirydd i lunio'r rhaglen. Dywedodd hefyd y gallai ambell i raglen enghreifftiol fod ar gael i'r Fforwm eu defnyddio am syniadau.<br><br>Rhannodd aelodau'r Fforwm yn barau i drafod y pum thema allweddol a nodwyd yn y cyfarfod diwethaf, er mwyn dechrau llenwi'r tablau. | |
| **7.0** | **Unrhyw Fater Arall** | |
| 7.1 | Gofynnodd JB sut i fynd ati i hawlio costau.<br><br>Dywedodd AW y gall y swyddogion drafod hyn a chynghori'r aelodau yng nghyfarfod nesaf y Fforwm. | |
| | | |